# Y CABINET DYDD MAWRTH, 9 TACHWEDD 2021

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Griffith, Nia Jeffreys, Dilwyn Morgan, Ioan Thomas, Gareth Thomas, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Bethan Lawton (Cadeirydd Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi) a Dewi Roberts (Aelod Lleol Abersoch).

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 4: Garem Jackson (Pennaeth Adran Oedolion), Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor / Meirion) a Carys Fon Williams (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo).
Eitem 6: Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd) a Alun Fon Williams (Uwch Swyddog Datblygu Twristiaeth)
Eitem 7: Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol)
Eitem 8: Carys Fon Williams (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo)
Eitem 9 – 11: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg), Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor / Meirion) a Huw Ynyr (Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cyng. Dewi Roberts ar gyfer eitem 4 gan ei fod yn aelod o Fwrdd Llywodraethol Ysgol Abersoch, ond nid oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cyng. Cemlyn Williams a Garem Jackson ar gyfer eitem 11 gan eu bod yn Gyfarwyddwyr Cwmni Cynnal, roedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac y bu iddynt adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

### YSGOL ABERSOCH

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Bethan Lawton – Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

### PENDERFYNIAD

Penderfynwyd i beidio addasu y penderfyniad a wnaethpwyd ar 28 Medi 2021 a cadarnhawyd yn derfynol y cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol, i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022, yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y mater wedi cael ei alw i mewn i'r Pwyllgor Craffu gan nad oeddent yn teimlo fod y Cabinet wedi rhoi sylw digonol i bump agwedd benodol pan yn ystyried y mater yn ffurfiol wedi y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Eglurwyd fod y Pwyllgor Craffu wedi trafod yr eitem yn ystod eu cyfarfod ar y 21ain o Hydref, ble cafwyd trafodaeth a cyfle i graffu ymhellach. Mynegwyd fod nifer o'r agweddau wedi eu hateb yn ystod y cyfarfod a penderfynodd y Pwyllgor i gyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'r ail-ystyried ar y sail na chafwyd ymateb digonol i'r ail reswm dros alw i mewn sef nad oedd yr adroddiad yn cymryd ystyriaeth ddyfodol Tai a Gwaith fydd yn dod i rym yn y pentref. Pwysleisiwyd fod yr aelodau Craffu yn bryderus nad oedd ystyriaeth lawn wedi ei roi i'r effaith posib datblygiadau arfaethedig ar y ffigyrau tafluniad ar gyfer Ysgol Abersoch cyn gwneud unrhyw benderfyniad. Gofynnwyd i'r Cabinet ail ystyried eu penderfyniad yn sgil eu pryderon.

Ychwanegodd yr Aelod Lleol fod y drafodaeth dros Ysgol Abersoch wedi bod yn broses hir iawn ac fod angen i'r aelodau Cabinet roi sylw penodol i'r materion Tai sydd ar y gwell yn y pentref. Eglurwyd fod sôn am ddatblygiadau tai yn y ward a tu hwnt ac o ganlyniad i hyn fod angen darpariaeth addysg i blant a theuluoedd fydd yn symud i'r ardal. Tynnwyd sylw fod Ysgol Llanbedrog dros ei gapasiti. Mynegwyd fod y datblygiadau yma a'r Gwesty newydd yn newyddion da i'r ardal ond pwysleisiwyd nad oes dim sôn am y datblygiadau hyn yn yr adroddiadau a mynegwyd fod ymdeimlad yn lleol fod yr adroddiadau o'i ganlyniad yn gamarweiniol â ddim yn cyd-fynd a Deddf Llesiant.

Efynnwyd ar yr aelodau i beidio cau'r Ysgol am y rhesymau a nodwyd heddiw ac yn y gorffennol ac i beidio cau yn ganol tymor yr ysgol, ac i flaenoriaethu addysg plant yr ardal.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i'r adroddiad gan nodi cefndir yr eitem. Eglurodd yn ôl ym mis Mehefin fod y Cyngor wedi cyhoeddi y rhybudd statudol i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021 a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Nodwyd fod y Cabinet yn dilyn ystyried y gwrthwynebiadau wedi cadarnhau y

penderfyniad i gau'r Ysgol. Pwysleisiwyd fod yr adroddiad a gyflwynwyd wedi ymdrin a sylwadau am effaith datblygiadau posib yn yr ardal ac fod y Cabinet wedi eu hystyried cyn dod i benderfyniad.

Nododd ei fod yn cynnig i'r Cabinet i beidio addasu'r penderfyniad gan fod cau'r ysgol yn ymateb i'r heriau sy'n wynebu yr ysgol ac yn arwain at gyfleodd fwy cyson i blant y dalgylch gan gynnig addysg o ansawdd uchel, profiadau, sgiliau a hyder i fod yn ddinasyddion dwyieithog llwyddiannus.

Nododd y Swyddog Monitro y drefn gyfansoddiadol yn unol a'r drefn galw i mewn gan nodi fod y penderfyniad a wneir heddiw yn derfynol a ni fydd modd galw'r penderfyniad hwn i mewn i graffu.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd na fyddai angen trafod y posibiliadau o agor y gwesty gan y buasai'r cwmni, gobeithio, yn penodi unigolion lleol ac felly ni fydd angen i bobl symud i mewn i'r ardal. Gofynnwyd os y bydd y datblygiadau tai os y bydd gan Ysgol Sarn Bach y capasiti i gymryd mwy o blant. Eglurwyd y buasai capasi yn y ysgol.
- Mynegwyd fod trafodaethau cychwynnol yn cael ei cynnal i drafod ac ymateb i angen am dai yn yr ardal ond nad oedd unrhyw benderfyniad wedi ei gadarnhau ac o ganlyniad ddim eisiau codi unrhyw ddisgwyliadau yn yr ardal.
- Pwysleisiwyd fod llawer o'r dadansoddi wedi ei wneud yn barod, a nodwyd os tai yn cael ei codi mai tai i bobl leol yn ardal fydd rhain ac nid i bobl tu allan i'r ardal, ac felly ni fydd yn cynyddu niferoedd y plant. Nodwyd o ran safle Penrhos y flaenoraeth fydd ar gyfer darpariaeth gofal, gyda nifer bychan ar gael i deuluoedd. Mynegwyd na fydd y rhain yn gwneud llawer o newid i'r tafluniad yr ysgol.
- Eglurwyd hyd yn oed os oes datblygiad y buasai capasiti yn Ysgol Sarn Bach i'r nifer o ddisgyblion.

## 5. COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 28 MEDI A 12 HYDREF 2021

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 28 Medi a 12 Hydref 2021 fel rhai cywir.

## 6. ADRODDIAD RHEOLAETH CARTREFI MODUR

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Gareth Griffith.

**PENDERFYNWYD**

Derbyniwyd yr adroddiad a cymeradwywyd y canlynol:

I. Awdurdodi'r Pennaeth Adran Amgylchedd mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Adran Economi a Chymuned i gynnal prosiect peilot ar gyfer

defnydd o hyd at 6 o safleoedd parcio'r Cyngor (neu ran o'r safleoedd) sydd o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd, er darparu cyfleusterau i gartrefi modur aros dros nos ac i gynnwys dynodi y lleoliadau, ond yn ddarostyngedig i sicrhau cyllid cyfalaf a'r caniatâdau angenrheidiol.

II. Bod adroddiad pellach ar ganlyniadau y peilot yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ymhen tair blynedd.
III. Ystyried a gweithredu ar fesurau gorfodaeth i fynd law yn llaw gyda'r uchod.
IV. Cyflwyno'r gwaith ymchwil i Llywodraeth Cymru a gofyn iddynt Adolygu'r Ddeddf Carafanau a Rheoli Datblygu 1960.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn ymchwili i gartrefi modur yng Ngwynedd. Darllenwyd y penderfyniad.

Eglurodd y Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd fod y gwaith ymchwil yma wedi ei greu ar y cyd rhwng yr adran Amgylchedd ac Economi a Chymuned. Nodwyd mai pwrpas yr adroddiad yw i egluro beth oedd y sefyllfa cartrefi modur yng Ngwynedd ac os oes angen rheolaeth well arnynt ac os oes unrhyw wersi i'w dysgu o leoliadau eraill ym Mhrydain ac Ewrop. Tynnwyd sylw fod y ddeddfwriaeth o ran Cynllunio a Trwyddedu yn mynd yn ôl i'r 1960au a holwyd bellach os yn addas i bwrpas.

Mynegwyd fod tri holiadur wedi ei ddefnyddio - un gyda perchnogion meysydd Carafanau a Gwersylla yng Ngwynedd, un a perchnogion cartrefi modur ac un gyda trigolion Gwynedd. Amlygwyd fod trosolwg o'r canfyddiadau gan amlygu fod y sector yn un sydd yn datblygu yn sylweddol ac fod anghenion defnyddwyr cartrefi modur yn wahanol i ddefnyddwyr carafanau a gwersylla traddodiadol. Nodwyd fod defnyddwyr yn ffafrio lleoliadau o fewn pellter cerdded i lefydd o ddiddordeb a canol trefi ac yn dueddol i deithio drwy'r flwyddyn.

Amlygwyd fod enghreifftiau yn yr Alban a Lloegr ble mae cynghorau wedi treialu meysydd parcio yn lefydd aros dros nos gyda cyfleusterau angenrheidiol ac eglurwyd ei fod yn dueddiad sydd i'w gweld yn Ewrop yn ogystal. Mynegwyd fod perchnogion wedi nodi yn yr holiadur y buasent yn eu defnyddio ac nodwyd cefnogaeth i'r treialu gan y cyhoedd yn ogystal..

Nodwyd fod yr adroddiad yn amlygu yr angen am reolaeth gwell o'r sector ond fod angen cefnogaeth i dreialu'r cyfleusterau dros nos ond eu bod yn mynd law yn llawer gyda mwy o orfodaeth. Eglurwyd mai gofyn am ganiatâd i dreialu cyfleuster o'r fath mewn hyd at 6 lleoliad o fewn ardal cynllunio Awdurdod Gwynedd. Mynegwyd y bydd angen buddsoddiad i greu'r cyfleusterau pwrpasol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod cartrefi modur yn broblem fawr ar draws y sir a diolchwyd am y gwaith sylweddol sydd wedi mynd i mewn i greu'r adroddiad. Dangoswyd cefnogaeth i'r cynllun gan nodi fod angen symud yn sydyn.
- Nodwyd fod yr adroddiad yn amlygu cydweithio gwych rhwng y ddwy adran, ac ychwanegwyd fod angen bod yn ganolog i arwain twf yn yr economi er mwyn cynnal swyddi.

- Croesawyd yr adroddiad yn benodol o ran rheolaeth ac i gyfeirio at leoliadau penodol i geisio delio ar sefyllfa. Holwyd os oes modd gwthio yn rhaglen yn ei blaen ac o bosib i gael y safleoedd yn gynt yn hytrach nac yn hwyrach.
- Cefnogwyd yr adroddiad gan amlygu fod anghenion y grŵp yn wahanol i ddefnyddwyr y meysydd gwersylla traddodiadau, ac eu bod yn cefnogi busnesau lleol. Amlygwyd pryder am 6 lleoliad yn unig gan y gallent greu prysurdeb mewn 6 lleoliad a drwy hynny ddim yn adlewyrchu beth gall y cynllun ei wneud yn ehangach. Eglurwyd dramor fod y lleoliadau yma y mherchnogaeth y cymunedau lleol ac efallai fod angen trafodaeth gyda'r cymunedau fel bod modd i gyfran o'r arian fynd er bydd y cymunedau yma.
- Nodwyd mewn byd delfrydol y buasai rhwydwaith o leoliadau ar draws y sir ond fod 6 yn nifer ymarferol i'r treialu ac ar diroedd sydd yn rheolaeth y Cyngor yn barod. Mynegwyd fod yr adroddiad yn sail tystiolaeth a fuasai o bosib yn rhoi cyfle i sectorau eraill agor y math yma o leoliad.
- Pwysleisiwyd fod yr adroddiad yn nodi mai rheoli'r sefyllfa mae'r Cyngor yn awyddus i'w wneud ac nid datblygu ymhellach. Amlygwyd yr angen am ddeialog agored gyda'r Parc i sicrhau eu bod yn rheoli yn ogystal ac nid datblygu'r sector. Nodwyd nad oedd modd cynnwys y Parc Cenedlaethol yn rhan o'r peilot o ganlyniad i'w rheolau cynllunio pendant..
- Nodwyd y bydd ar adran yn edrych ar ffyrdd o wthio y cynllun yn ei blaen.

## 7. FFRAMWAITH PWYLLGORAU

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Nia Jeffreys

**PENDERFYNWYD**

Penderfynwyd mabwysiadu'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet i'r dyfodol gyda'r dyddiad cychwyn i'w bennu gan yr Arweinydd mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth a'r Swyddog Monitro, ac o ganlyniad i'r cyfyngiadau presennol gael eu codi.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y fframwaith yn gosod arweiniad ar y ffordd ymlaen i gyfarfodydd i'r dyfodol. Amlygwyd fod mynychu cyfarfodydd o bell yn cynnig llawer o fanteision megis amrywiaeth mewn democratiaeth, costau ac amser teithio i Gynghorwyr a Swyddogion. Pwysleisiwyd fod cyfnod y pandemig wedi amlygu sut mae mynediad o bell wedi gweithio yn dda. Mynegwyd fod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 yn nodi'r angen i gyhoeddi yn ffurfiol y trefniadau ar gyfer Pwyllgorau i'r dyfodol.

Eglurwyd fod gan y Cabinet hawl i fabwysiadu ei threfniadau ei hunain ac y fod y Cyngor Llawn yn penderfynu ar y pwyllgorau eraill ar draws y Cyngor. Nodwyd fod y fframwaith wedi ei lunio ar sail diddordeb y cyhoedd i'r eitemau sydd i'w gweld mewn amrywiol bwyllgorau ac fod cynnal y Cabinet mewn trefn hybrid yn gyson gyda'r drefn hwn.

## 8. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS TAI AC EIDDO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Craig ab Iago.

**PENDERFYNWYD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod newyddion da a drwg. Amlygwyd fod 3 cynllun penodol yn crisialu'r gwaith positif mae'r adran yn ei wneud. Eglurwyd fod y Cynllun Gweithredu Tai bellach yn weithredol ac yn gweithio i sicrhau tai i bobl i leol yn eu cymunedau. Nodwyd fod cynlluniau arloesol ar draws y sir ac fod sawl grawn wedi ei dderbyn i ymateb i gynlluniau fel digartrefedd.

Mynegwyd fod cynlluniau ar y gwell i adeiladu tai o fewn y sir ac fod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda chyrff ar draws Gwynedd i adeiladau tai ar diroedd y Cyngor. Tynnwyd sylw ar gynllun Siop Un Stop fydd ar gael i gynorthwyo unigolion i sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth ac yn ymwybodol o unrhyw gyfleodd sydd ar gael. Nodwyd fod y cynllun gosod tai cymdeithasol i bobl leol a gychwynnwyd flwyddyn yn ôl yn cymryd camau mawr ymlaen ac yn parhau i ddatblygu er fod nifer o broblemau wedi codi ar hyd y daith. Er hyn amlygwyd fod yr adran wedi llwyddo i gartrefu nifer uchel o bobl yn eu cymunedau.

Eglurwyd er fod y cynlluniau yn uchelgeisiol fod y pandemig wedi arafu nifer o gynlluniau o fewn y Cynllun Gweithredu Tai. Pwysleisiwyd fod camau yn ei le i daclo digartrefedd a oedd yn argyfwng cyn y pandemig ond fod y sefyllfa wedi gwaethygu dros y deunaw mis diwethaf. Mynegwyd fod y pandeimg wedi cael effaith ar adnoddau sydd ar gael ynghyd ar capasiti i ymateb. Ond, gyda'r drefn herio perfformiad newydd nodwyd fod modd ymateb yn gyflym i heriau ac i daclo problemau yn syth.

Ar y cyfan mynegwyd fod ar adran yn llwyddo ac fod derbyn pedair Gwobr Genedlaethol yn profi y llwyddiant yma. Eglurwyd y bydd yr Aelod Cabinet yn mynd i bob ardal adfywio yn ystod y misoedd nesaf i esbonio i Gynghorwyr beth mae'r adran yn gobeithio ei wneud ymhob ardal.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Tynnwyd sylw at ddigartrefedd cudd sydd i'w gweld ar gynnydd ar draws y sir. Croesawyd cynlluniau yn Cynllun Gweithredu Tai gan amlygu ei fod yn weithredol ers cwta 7 mis. Holwyd os oes modd cael gwybodaeth fesul ward. Nodwyd fod trafodaeth am ddigartrefedd cudd yn hynod bwysig gan fod llwyddiant cynllun i gael unigolion oddi ar y stryd wedi lleihau y tai sydd ar gael i daclo cynyddu mewn digartrefedd cudd.
- Eglurwyd fod digartrefedd ar ei lefel uchaf erioed ar mae hyn i'w gweld ar draws Cymru. Eglurwyd fod y Cyngor yn edrych i brynu 6 safle ac yn

parhau i geisio prynu tai fel bod modd cynnig lleoliadau gosod yn lleol i unigolion.

- Eglurwyd fod arian ar gyfer digartrefedd yn dod o Gronfa Caledi'r Cyngor ond nodwyd fod y Gweinidog wedi pwysleisio na fydd arian ar gael y flwyddyn ariannol nesaf. Eglurwyd os yn parhau y bydd angen arian i'w ariannu ac angen sicrhad fod yr arian yn y setliad a dderbynnir gan y Llywodraeth.
- Nodwyd fod yr adroddiad yn glir, cryno ac i'r pwynt ac yn un cadarnhaol a positif. Mynegwyd od niferoedd digartrefedd yn frawychus o uchel er nad oedd prinder tai, ond fod y nifer uchel o dai yn cael ei defnyddio yn dymhorol yn gyfredol. Gofynnwyd i'r Llywodraeth os yn tynnu yr arian yn ôl fod angen cymorth gyda ail gartrefi.

## 9. STRATEGAETH DDIGIDOL ADDYSG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Cemlyn Williams.

### PENDERFYNIAD

I. Cymeradwywyd y Strategaeth Ddigidol Addysg yn ei chyfanrwydd.
II. Cytunwyd i gyd ariannu hyd at hanner costau adnewyddu'r dyfeisiadau drwy ymrwymo £2filiwn o falansau'r Cyngor, gyda disgwyliad i ysgolion dalu'r hanner arall .
III. Cytunwyd i ysgolion Gwynedd dderbyn cefnogaeth dechnegol gan wasanaeth Technoleg Gwybodaeth yr Awdurdod o Ebrill 2022 ymlaen.
IV. Cytunwyd i ariannu £145mil er mwyn cynnig cefnogaeth dechnegol hyd at Ebrill 2022, er mwyn prysuro amserlen cyflwyno dyfeisiadau i'r ysgolion.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan amlygu pleser o gyflwyno'r strategaeth arloesol yma. Pwysleisiwyd fod hwn wedi bod yn gynllun trawsadrannol rhwng yr adran Addysg a Technoleg Gwybodaeth a nodwyd gwerthfawrogiad i'r cyd-weithio agos sydd wedi bod yn creu'r Strategaeth. Mynegwyd mai bwriad y Strategaeth yw i ddefnyddio y ddarpariaeth ddigidol orau i gefnogi disgyblion a staff ysgolion i sicrhau cyfleon cyson ar draws y sir. Eglurwyd fod y bwriad hwn yn amlygu'r uchelgais sydd i ddefnyddio technoleg gwybodaeth i wella addysg gan ddyrchafu'r defnydd i bob cam o'r cwricwlwm.

Ychwanegodd y Pennaeth Addysg fod y cyfnod y pandemig wedi amlygu'r angen sydd i sicrhau fod disgyblion yn gallu defnyddio technoleg yn hyderus. Pwysleisiwyd fod y gwaith ar y strategaeth wedi cychwyn cyn y cyfnod clo ond fod y cyfnod y pandemig wedi gwthio y cynllun yn ei blaen.

Tywysydd y Swyddog Addysg Ardal Dwyfor / Meirion drwy'r adroddiad gan nodi fod sgiliau ddigidol bellach ar yr un lefel a llythrennedd a rhifedd ac felly fod angen sicrhau fod gan ddisgyblion y sgiliau digidol sydd ei angen. Eglurwyd fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian i wella'r ddarpariaeth ac wedi rhoi cyfrifoldeb

i’r awdurdodau lleol i arwain ac y gwaith i sicrhau cyd-weithio rhwng yr ysgolion.

Eglurwyd yn bresennol fod nifer o ddyfeisiadau wedi dyddio ac ysgolion yn defnyddio amrywiaeth o systemau gwahanol. Nodwyd y bydd y strategaeth yn sicrhau cysondeb ar draws ysgolion. Pwysleisiwyd fod y cyfnod clo wedi amlygu diffyg dyfeisiadau addas ac eu bod yn syfrdanol y nifer o aelwydydd nad oedd ganddynt ddyfeisiadau addas. Nodwyd fod bron i 2000 o ddyfeisiadau wedi er rhannu yn ystod y cyfnod ond fod yr angen wedi bod i rannu mwy oherwydd fod nifer o deuluoedd yn rhannu dyfais yn hytrach nac un i bob disgybl. Mynegwyd fod y strategaeth yn sicrhau dyfais i bob disgybl ac athro, ac y byddant wedi ei dewis yn unol a anghenion oedran y disgybl ac wedi ei gosod yn Gymraeg ar draws y sir.

Tynnwyd sylw at gostau adnewyddu gan fod rhai miloedd o ddyfeisiadau ar y ffordd i’r ysgolion gyda hyd bywyd o oddeutu 5 mlynedd. Eglurwyd y bydd angen £3.9miliwn i’w hadnewyddu. Pwysleisiwyd y bydd angen i’r dyfeisiadau gael ei cynnal a cadw yn effeithiol er mwyn sicrhau na fydd un disgybl yn colli addysg. Amlygwyd y drefn bresennol ar hyn o bryd i gefnogi ysgolion gan nodi yn y tymor byr y bydd y gefnogaeth yn cael ei dynnu mewn i wasanaeth technoleg gwybodaeth y Cyngor tra fydd yr adran yn sicrhau trefn cefnogi tymor hir.

Sylwadau’n codi o’r drafodaeth:

- Nodwyd fod y cynllun yn un uchelgeisiol ac yn rhoi cyfleodd a profiadau gorau a cyson ar draws y sir. Nodwyd yn yr ysgolion y bydd yn gweithio yn arbennig o dda ond holwyd sut y bydd cymorth ar gael i unigolion heb gyswllt y we. Eglurwyd fod y panedmig wedi amlygu problemau ond fod ysgolion wedi eu cynorthwyo drwy focsys we o’r ysgolion ond fod rhai wedi parhau gyda problemau oherwydd fod rhai tai heb signal ffon Er mwyn ymateb i hyn bydd yr adran yn edrych ar bob opsiwn posib ac y bydd modd i ysgolion geisio am grantiau.
- Holwyd yn dilyn y 5 mlynedd bydd y dyfeisiadau yn cael ei uwchraddio a felly gofynnwyd sut y bydd y dyfeisiadau yn cael ei ailgylchu neu a fydd modd eu ailddefnyddio. Mynegwyd o ran y dyfeisiadau, yn benodol ar ddiwedd ysgol uwchradd, y bydd cynnig yn cael ei roi i’r disgyblion i gadw ei cyfarpar ar ddiwedd y 5 mlynedd, ond eglurwyd y bydd y dyfeisiadau eraill yn cael eu hailgylchu o fewn Prydain.
- Holwyd o ran cydraddoldeb fod angen rhoi ystyriaeth i’r ddisgyblion sydd yn cael ei lleoli mewn lleoliadau tu hwnt i’r sir. Mynegwyd fod trafodaethau yn cael ei gynnal i gael yr unigolion yma ynghyd a plant gyda’r anableddau dwys yn rhan o’r cynllun.
- Tynnwyd sylw yn ogystal at ddisgyblion sydd yn cael eu haddysgu adref gan fod cynnydd mewn niferoedd o ganlyniad i’r pandemig. Eglurwyd fod cefnogaeth ar gael i’r teuluoedd drwy’r tîm lles.
- Rhoddwyd y cyd-destun ariannol gan bwysleisio fod y Cyngor wedi derbyn arian grant ond y bydd angen ariannu cost adnewyddu. Mynegwyd yn amodol ar ysgolion yn ariannu hanner y gost y bydd angen ymrwymo £2filiwn o falensau y Cyngor i adnewyddu y dyfeisiadau ymhen 5 mlynedd.

## 10. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFNWYD cau allan y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny) yno gystal â Paragraff 16 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972- Gwybodaeth y gallai honiad ynghylch braint broffesiynol gyfreithiol gael ei gynnal yn ei chylch mewn achos cyfreithiol.

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o’r fath heb ei gyhoeddi. Mae’r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o’r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau’r cwmni a’r Cynghorau. Mae hefyd yn cynnwys cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd ynglŷn a sefydlu y ffordd ymlaen. Mae’r gallu i dderbyn a thrafod cyngor or fath yn cael ei warchod gan y fraint gyfreithiol . Byddai cyhoeddi hyn yn groes i’r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau.

## 11. STRATEGAETH TG YSGOLION A CHWMNI CYNNAL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

**PENDERFYNIAD**

I. Cymeradwywyd y ffordd arfaethedig ymlaen mewn perthynas â dyfodol Cwmni Cynnal.

II. Dirprwywyd yr hawl i Bennaeth yr Adran Gyllid mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol, i negodi cytundebau o'r fath fel sydd eu hangen yn rhesymol i hwyluso'r weithdrefn.

III. Gofynnwyd am adroddiad dilynol i'r Cabinet i gymeradwyo materion dosbarthu a throsglwyddo y cytunwyd arnynt.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 3:40pm

---

**CADEIRYDD**